SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# BWLETIN YSGOL MISOL – CHWEFROR 2023

## Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol



*“Mae dyddiadau CPD ar gyfer mis Mawrth bellach ar gael i ysgolion archebu lle arnynt. Mae hyn yn ffordd wych i ysgolion ddysgu mwy am brofiadau plant y Lluoedd Arfog a gallai fod yn fan cychwyn gwych ar gyfer meddwl sut y gall eich ysgol ddathlu Mis y Plentyn Milwrol ym mis Ebrill. Byddai'n wych hefyd gweld rhai ysgolion yn gweithio tuag at eu gwobr efydd Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog mewn pryd ar gyfer Mis y Plentyn Milwrol ym mis Ebrill ynghyd â Diwrnod y Lluoedd Arfog yn Mehefin. Casnewydd fydd yn cynnal dathliad Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog eleni ar 24 Mehefin. Mae gallu cydnabod a dathlu ysgolion sy'n mynd ati i ddathlu a chefnogi plant y Lluoedd Arfog yn wych. Efallai bod eich awdurdod lleol wedi bod mewn cysylltiad ynghylch a hel data Plant y Lluoedd Arfog, felly plis ymatebwch cyn gynted ag y gallwch. Am unrhyw gyngor neu gymorth, cysylltwch â ni.”* **Emilee,** Emilee.Kinsey@newport.gov.uk

## Swyddog Arweiniol Cyfranogiad



*“Ers Hydref mae 62 o blant oed ysgol gynradd bellach wedi cwblhau cwrs Llesiant 7 wythnos Little Trooper. Rydym wedi cael adborth gwych gan bawb a gymerodd ran. Gwaith gwych gan Ysgol Babanod Mount Street, Ysgol Gynradd Sain Tathan ac Ysgol Pen-y-bryn. Diolch i chi i gyd ac edrychaf ymlaen at weld eich Clybiau Little Troopers yn parhau a gwneud gwahaniaeth. Hefyd, bravo MAWR ychwanegol i Lilly, Evelyn, Conall ac Emelia o Glwb Troswyr Bach Ysgol Gynradd Sain Tathan a Cari a Lyla o Glwb Forces Life Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr, fe wnaethon ni fwynhau clywed gennych chi yn seremoni wobrwyo eich ysgol. Rydych yn llysgenhadon gwych i blant/pobl ifanc y Lluoedd Arfog trwy ledled Cymru.”* **Jo,** Joanna.wolfe@wlga.gov.uk

## DYLETSWYDD CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

Mae Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i dalu sylw dyladwy i egwyddorion y Cyfamod wrth arfer rhai swyddogaethau.

**Daeth Dyletswydd y Cyfamod i rym ar 22ain Tachwedd 2022.**

**Rhagor o wybodaeth yma**

## CYLLID

**SSCE Cymru Cymhorthydd rheoli achosion**
Ar gael trwy gydol y flwyddyn.

**Rhagor o wybodaeth yma**

**Cyngor:** Siaradwch â’ch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol a defnyddiwch ganllawiau cyllido SSCE Cymru ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

## HYFFORDDIANT

**YN DOD YN FUAN... eDdysgu SSCE**

**Sesiynau DPP SSCE Cymru**

Dyddiadau ar gael ym mis Mawrth.

**Gweler dyddiadau ac archebwch yma**

